# ATODLEN 5

# MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

## RHAN 3

## DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 5 (DYLETSWYDDAU AMRYWIOL YSGOLION)

*Deddf Addysg 1996 a gorchmynion a wneir odani*

31 (1) Yn adran 512A(6) o Ddeddf Addysg 1996 (trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 512 i gyrff llywodraethu), hepgorer o "and such" i'r diwedd.

(2) Yng Ngorchymyn Addysg (Trosglwyddo Swyddogaethau Ynghylch Ciniawau Ysgol) (Cymru) 1999 (OS 1999/610), hepgorer erthygl 4.

(3) Yng Ngorchymyn Addysg (Trosglwyddo Swyddogaethau Ynghylch Ciniawau Ysgol) (Cymru) (Rhif 2) 1999 (OS 1999/1779), hepgorer erthygl 4.

*Deddf Addysg 2002*

32 Yn Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraff 110.

*Deddf Addysg 2005*

33 Yn adran 103 o o Ddeddf Addysg 2005 (cyfarfodydd blynyddol rhieni) hepgorer is-adran (2) a (3)(a)(ii).

*Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006*

34 (1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 58 (cod ymarfer o ran y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir).

(3) Yn adran 87 (y pŵer i godi tâl am ddarparu prydau bwyd)—

(a) yn is-adran (1), hepgorer paragraff (b);

(b) yn is-adran (2), hepgorer paragraff (b).

*Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009*

35 Yn adran 8(2)(b) o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (sy'n darparu i isadran (4A) newydd gael ei mewnosod yn adran 512 o Ddeddf Addysg 1996), yn lle "7(5)" rhodder "4".

*Deddf Addysg 2011*

36 Yn adran 35 o Ddeddf Addysg 2011 (dyletswyddau mewn perthynas â phrydau bwyd)—

(a) yn is-adran (2) hepgorer paragraff (b);

(b) yn is-adran (3) hepgorer paragraff (b).